# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd Diogelwch a Llesiant** |
| **Aelod Cabinet:** | ***Cynghorydd Menna Trenholme*** |
| **Swyddog perthnasol:** | ***Ian Jones*** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15fed Hydref 2024** |

**1. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

*Mae cyflwyno'r adroddiad hwn gerbron y Cabinet yn flynyddol yn rhan o drefniadau rheoli iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Mae'n hanfodol bod gan aelodau'r Cabinet drosolwg llawn o sefyllfa'r Cyngor yn y maes pwysig yma.*

**2. Penderfyniad a Geisir:**

*Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.*

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**


*Bwriad yr adroddiad hwn yw amlinellu'r prif faterion a gododd yn y maes iechyd, diogelwch a llesiant yn ystod y flwyddyn dan sylw.*

Mae effaith dwy flynedd o ganllawiau'r Llywodraeth ar COVID ac ôl effaith hynny ar lesiant staff yn parhau i fod yn effeithio'n sylweddol ar agenda Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Gyda Gwasanaethau'n ailsefydlu eu hunain i'r normal newydd, a staff yn mynd drwy gyfnod pontio rhwng gweithio hybrid o fewn y swyddfeydd a gartref, bu raid cefnogi rheolwyr/arweinyddion tîm wrth addasu i'r cam hwn.


Wedi cymaint o newid fodd bynnag, mae'n gyfle i ail ystyried ac ail ddiffinio ble rydym arni fel Cyngor ac yn hynny o beth, mae adolygiad strategol ar Iechyd a Diogelwch yn gynllun blaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor.

**Ffigyrau damweiniau**

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r holl ddigwyddiadau a adroddwyd i'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant ynghyd â faint o'r rhain oedd yn ddigwyddiad adroddadwy o dan reoliadau RIDDOR (2018/19 i 2023/24). Dyma'r digwyddiadau mwyaf difrifol sydd wedi digwydd yn fewnol yn ymwneud â staff y Cyngor, neu lle mae aelodau'r cyhoedd wedi cael eu hanafu ar safle'r Cyngor, a oedd yn gofyn am adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Yn 2021/22, diddymwyd elfen o reoliadau RIDDOR oedd yn ei gwneud yn ofyniad i adrodd achosion o staff yn dal COVID yn y gwaith (neu lle roedd sail resymol i gredu hynny), a dyna'r rheswm dros y cynnydd sylweddol yn y ffigyrau ar gyfer 2020/21 a 2021/2022.





Nifer y digwyddiadau (yn cynnwys damweiniau a digwyddiadau agos) / Nifer o RIDDOR




Digwyddiadau a adroddwyd dan RIDDOR 2015-2023

Nid oes unrhyw un duedd i adrodd arni fel y rheswm am y cynnydd, ac eithrio nodi bod y patrwm sydd wedi bodoli yn gorfforaethol, ac yn genedlaethol ers blynyddoedd lawer yn parhau, sef mai symud a thrin, a llithro a baglu yw'r ddau brif achos dros ddamweiniau. Mae'r digwyddiadau sy'n cael eu categoreiddio fel rhai 'eraill' yn amrywio o ymosodiadau corfforol yn erbyn staff, i gyflyrau iechyd sydd wedi'u hachosi gan y gwaith, i ddamweiniau cerbydau.

Mae'r siart isod yn amlinellu nifer yr achosion RIDDOR sydd wedi cael eu hadrodd i AGID dros y 5 mlynedd diwethaf.




Fel yr adroddwyd y llynedd, mae gwaith i gryfhau ein trefniadau hyfforddiant symud a thrin yn parhau, er mwyn mynd i'r afael ag anafiadau symud a thrin ac er mwyn cefnogi ein Hyfforddwr Symud a Thrin corfforaethol. Mae’r gwaith yn digwydd mewn gwasanaethau lle mae cyfraddau absenoldeb yn uwch oherwydd anafiadau symud a thrin, megis y Gwasanaeth Gwastraff, a lle mae risgiau uchel i’n defnyddwyr gwasanaeth megis gwasanaethau preswyl a gofal cymunedol. Rydym eisoes wedi adrodd ar ddatblygiad dau fodiwl e-ddysgu mewnol sydd bellach wedi eu rhannu â staff pob Adran drwy’r Porth E-ddysgu Corfforaethol. Yn y Gwasanaeth Gwastraff mae pecyn hyfforddiant o’r newydd wedi ei ddatblygu sef hyfforddiant byr (*toolbox talk)* ynghyd â gwiriadau cymhwysedd y gellir eu cynnal mewn safleoedd gwaith a gyda’r offer a gwrthrychau penodol y mae’r gweithwyr yn eu symud a’u trin bob dydd. Dros y flwyddyn nesaf mae bwriad i gynnig trefn debyg i’r gwasanaethau preswyl a gofal cymunedol (yn yr Adrannau Plant ac Oedolion).

## Gorfodi a chydymffurfio

Ym mis Mawrth 2024, cafwyd ymweliad gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID), sy'n gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch yn genedlaethol. Roedd hyn ar sail ymgyrch genedlaethol gan AGID i adolygu rheolaeth asbestos, a hynny’n benodol o fewn ysgolion. Maent hefyd wedi ymweld yn ystod y ddwy flynedd flaenorol fel rhan o’r ymgyrch hon.

Fe wnaethant ymweld â thair ysgol y tro hwn, sef Ysgol Beddgelert, Ysgol Llanbedr, ac Ysgol Ardudwy. Aeth yr archwiliadau'n dda ac er i'r Arolygwyr nodi fod gan y Cyngor weithdrefnau cadarn i reoli asbestos, fe wnaethant ysgrifennu at yr awdurdod gyda rhai argymhellion. Golyga hyn fod y Cyngor wedi derbyn ffi ymyrraeth o tua £300. Fe wnaeth yr Uned Iechyd a Diogelwch a’r Gwasanaeth Eiddo greu rhaglen waith ar y cyd i gyfarch yr argymhellion a’i chyflwyno i’r Arolygwyr.

Yn mis Chwefror, fe wnaeth AGID wneud ymholiadau am ddamwain ym mis Tachwedd 2023 lle y gwnaeth defnyddiwr gwasanaeth ddisgyn a chael ei gludo i’r ysbyty. Fe wnaethant ofyn llu o gwestiynau i’r Uned Iechyd a Diogelwch a’r Gwasanaethau Darparu, ac anfonwyd ymateb prydlon. Mae posibilrwydd, ar ôl i

AGID adolygu'r ymatebion, y bydd ymweliad dilynol yn 2024/25, ond hyd at Ebrill 2024 nid ydynt wedi dod yn ôl atom yn adrodd eu bod am ymweld.

**Rhaglen waith**

Yn ystod 2023/24, fe wnaeth Cyngor Gwynedd gydnabod, lle roedd swyddi yn caniatáu, i weithwyr barhau i weithio'n hybrid, sef yn rhannol yn y cartref ac yn y swyddfa. Nid oedd y trefniant hwn ar sail gorfodaeth gan y llywodraeth yn sgil covid erbyn hyn, ac felly roedd y trefniant yn dal i fod yn un dros dro. Fe wnaeth y gwaith codi ymwybyddiaeth barhau o ran y pwysigrwydd i bawb oedd yn defnyddio cyfrifiadur i adolygu ei fan gwaith ac i sicrhau bod yr offer a'r wybodaeth gywir gan bob gweithiwr.

Anfonwyd hunan asesiad gweithfan at 2063 o weithwyr yn 2022-23, gyda 73% wedi ymateb. Yn deillio o hynny, fe wnaeth 239 o weithwyr dderbyn asesiad pellach gan yr Uned Iechyd a Diogelwch. Erbyn diwedd 2023-24, roedd y nifer oedd wedi derbyn cais i gwblhau hunan asesiad gweithfan yn 2175 (gan gynnwys trosiant staff), a'r canran a oedd wedi cwblhau yn 86%. Yn deillio o hyn, cynhaliwyd 65 asesiad pellach gan yr Uned Iechyd a Diogelwch. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o'r hunan asesiadau ac asesiadau pellach yn 2022-2024 i greu rhaglen waith dros y blynyddoedd nesaf – byddwn yn targedu'r adrannau a gafodd y canran uchaf o asesiadau pellach fel blaenoriaeth.

Fel dilyniant i'r cwrs IOSH Arwain yn Ddiogel i'r Uwch Dîm Rheoli y flwyddyn flaenorol, cynhaliwyd sesiwn eleni a oedd yn benodol i adolygu a blaenoriaethu risgiau'r Cyngor. Bu trafodaeth agored ynglŷn â'r sefyllfa bresennol a'r risgiau oedd wedi cael eu blaenoriaethu. Fel rhan o'r cyflwyniad bu hefyd trafodaeth bellach ar y modelau diogelwch, sef modelau penodol sydd wedi cael eu adnabod gan IOSH (Sefydliad iechyd a diogelwch). Yn y flwyddyn nesaf, bydd gwaith yn dechrau i greu dadansoddiad blwch ac yn ei dro bydd hyn yn rhoi amlinelliad i bob adran er mwyn symud ymlaen i greu rhaglen waith. Bydd y gwaith hwn yn caniatáu i'r Cyngor symud i'r model diogelwch integredig.

Un o'r gofynion i gyrraedd y model uwch o reolaeth iechyd a diogelwch yw sicrhau bod bob rheolwr yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch addas a digonol. I'r perwyl hwn, mae cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel yn cael ei gyflwyno'n fewnol gan yr Ymgynghorwyr i bob rheolwr, sy'n rheoli pobl, safle neu brosiectau. Mae'r cwrs yn cael ei redeg dros gyfnod o 3 diwrnod ac yna adolygiad un diwrnod o'r cwrs bob tair blynedd. Yn ystod cyfnod COVID ni chynhaliwyd y cyrsiau o 2020 tan 2022 oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol. Ar y sail hwn, nodwyd y pwysigrwydd o ddal i fyny â'r hyfforddiant. Yn 2019, cyn Covid, cynhaliodd y gwasanaeth 30 diwrnod o hyfforddiant ar gyrsiau IOSH. Yn ystod 2022/23 cynhaliwyd 11 o ddyddiadau hyfforddiant, oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol ond yn 2023/2024 cynhaliwyd 55 o ddiwrnodau hyfforddiant. Mae hyn yn gynnydd o 83% ers 2019 ond yn 400% o gynnydd o'r flwyddyn flaenorol 2022/23.

Yn ogystal â rhedeg mwy o gyrsiau, cynhaliodd y tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant ddadansoddiad blwch o'r rheolwyr ym mhob adran/gwasanaeth yn amlinellu rheolwyr a oedd wedi neu a oedd angen mynychu cwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel neu gwrs IOSH Rheoli'n Ddiogel - Gloywi. Gyda'r wybodaeth hon, roedd posib i'r rheolwyr a thimau arweinyddiaeth flaenoriaethu'r unigolion cywir i fynychu'r cyrsiau.

Mae gwaith i adolygu'r systemau electronig iechyd, diogelwch a llesiant wedi cychwyn ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Bydd y system newydd yn caniatáu i'r Cyngor barhau gyda'r gofynion

statudol mewn ffordd fwy effeithiol a rhoi mwy o reolaeth i'r rheolwyr reoli peryglon a risgiau o fewn eu hadrannau a'u gwasanaethau.

Mae'r tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi parhau i gynnal arolygiadau o fewn adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac YGC drwy gydol pandemig Covid-19. Mae'r adran hon yn un sydd wedi ei hachredu i safon ISO 45001 ac mae yna reolau caeth ar amlder archwiliadau gan yr achrediad yma. Gohiriwyd pob arolygiad arall yn ystod y cyfnod hwn oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol ar waith ychwanegol y creodd y pandemig i'r tîm. Fel rhan o'r system electronig iechyd a diogelwch newydd, bydd gwaith mapio yn dechrau yn y flwyddyn nesaf. Y bwriad yw creu system i raglennu archwiliadau, nodi gwelliannau o'r archwiliadau ac yna cynnal rhaglen waith a threfn monitro'r gwaith parhaus ar draws y Cyngor.

Parhaodd y cyfarfodydd a sefydlwyd ym mlwyddyn gyntaf y Pandemig rhwng y cyflogwr a'r Undebau Llafur eleni a nawr mae trafodaeth agored am ystod o faterion iechyd a diogelwch penodol. Mae hwn wedi bod yn un datblygiad cadarnhaol iawn ers COVID ac mae trafodaethau wedi bod yn adeiladol a ffrwythlon.

**Achrediad ISO 45001 gan BSi**

Mae achrediad ISO 45001 yn un sy'n cael ei adnabod yn rhyngwladol fel system benodol o reoli iechyd, diogelwch a llesiant. Erbyn hyn mae'r system yn bodoli o fewn un adran yn unig o fewn Cyngor Gwynedd sef Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC. Mae'r system yn cael ei monitro'n allanol gan gwmni BSI bob 6 mis ac yn ystod cyfnod yr adroddiad ni chodwyd materion sylweddol uwch yn ystod yr ymweliadau.

Oherwydd newidiadau o fewn y sefydliad mae Priffyrdd a YGC yn rhedeg dwy system ISO 45001. Mae trafodaethau wedi digwydd gyda BSI ac o fewn yr adran i weld a oes posib ymgorffori'r ddwy system. Yn y cyfamser mae'r ymgynghorydd o fewn yr adran yn parhau gydag archwiliadau, fforwm trafodaeth, a sicrhau bod cofrestr risg yr adran yn gyfredol.

Gan fod y system ISO 45001 yn un rhyngwladol ac yn un sy'n cael ei hadnabod fel safon y diwydiant o fewn y maes, bydd system electronig newydd y Cyngor yn seiliedig ar egwyddorion y system hon.

**Iechyd Galwedigaethol**

Mae'r tîm Iechyd Galwedigaethol wedi cael blwyddyn eithaf heriol, yn bennaf oherwydd trosiant uchel o fewn y gweithlu yn ystod y flwyddyn. Er hyn, mae'r gwasanaeth wedi parhau i flaenoriaethu unigolion ac er bod rhai wedi aros ychydig yn hirach i dderbyn apwyntiad mae'r Uned wedi brysbennu cyfeiriadau ac wedi rhoi argymhellion / cyngor yn eu lle ar gyfer yr unigolion a'r Rheolwr. Mae'r gwasanaeth wedi ymdopi gyda'r her ac erbyn hyn wedi penodi arbenigwyr sydd yn y broses o gael eu hyfforddi yn nhrefn yr uned.

Oherwydd y sefyllfa sydd wedi'i nodi, yn anffodus mae'r rhaglen gwyliadwriaeth iechyd wedi llithro ond mae gwaith bellach yn digwydd i ddal i fyny gyda'r gwaith hwn dros y flwyddyn nesaf. Rydym wedi cyflogi unigolyn penodol i gwblhau'r profion o fewn Arfon, Dwyfor a Meirionydd. Mae'r profion hyn yn ofyniad cyfreithiol i staff a phrif bwrpas eu cynnal yw adnabod a ydi unigolion yn agored i risgiau iechyd yn y gwaith e.e. profion clyw / anadl neu ddirgryniad.

Mae cytundebau newydd wedi cael eu ffurfio gyda chwmnïau a enillodd y tendr i ddarparu gwasanaeth ffisiotherapi a'r gwasanaeth cwnsela.  Un o'r prif newidiadau o fewn y cytundeb yw'r drefn bod angen i'r cwmnïau gasglu ystadegau i adrodd yn ôl yn fisol, yn chwarterol ac yn flynyddol.  Y bwriad gyda'r wybodaeth hon yw creu adroddiad i alluogi i'r Pennaeth Adran a rheolwyr gwasanaethau adnabod patrymau a cheisio cael datrysiadau i'r problemau craidd.  Rhaid pwysleisio mai patrymau sy'n cael eu hadnabod ac ni fydd cyfrinachedd i'r unigolion hyn yn cael ei beryglu.


Fe wnaeth gwaith rhagweithiol yn y maes iechyd meddwl barhau gyda 16 o gyrsiau a 152 o reolwyr / arweinyddion tîm wedi mynychu cwrs i-act yn 2023/24.  Fe wnaeth gweithwyr sydd wedi cychwyn o fewn y gwasanaeth fynychu'r cwrs hyfforddi a bydd cyrsiau yn ail ddechrau mis Medi/Hydref.

Gyda nifer o newidiadau o fewn y Cyngor a hefyd yn y byd ehangach mae parhau i ofalu am lesiant ein gweithwyr wedi amlygu'r angen i  gynyddu ein dyletswydd gofal a hefyd darparu'r gorau i drigolion Gwynedd.  Fel rhan o'r ymgyrch rydym wedi gallu cyflogi unigolyn rhan amser, dros dro i ddechrau ar y gwaith o edrych ar y rhaglen dros y flwyddyn nesaf ac i edrych ar strategaeth llesiant Cyngor Gwynedd.

Mae'r tabl isod yn cynnwys y cyfeiriadau at yr Uned dros y chwe blynedd diwethaf. Fel y dangosir yn y graff, mae cynnydd amlwg mewn cyfeiriadau ym misoedd Gorffennaf 2023, Medi 2023 a Chwefror 2024.

Mae Iechyd Meddwl a Chyhyrysgerbydol yn parhau i fod yn brif achosion absenoldebau salwch yng Nghyngor Gwynedd, gyda chynnydd mewn iechyd meddwl dros y blynyddoedd:

- Cyfeiriiwyd 688 o staff yn ystod 2023/24 o gymharu â 648 yn ystod 2022/23
- O'r 688 sydd wedi'u cyfeirio, mae 269 o'r rheini yn gyfeiriadau iechyd meddwl, sydd wedi cynyddu o gymharu â ffigwr 2022/23 sef 191.



## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad yn cyfleu gwybodaeth i'r Cabinet ac nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant. Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

### 4.2 Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yn esbonio fod gan y Cabinet rôl o fewn ein fframwaith iechyd a diogelwch. Mae'n briodol ei fod yn derbyn y wybodaeth sydd yma er yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'n trefniadau yn y maes pwysig yma.

**Rhestr Atodiadau**

**Rhestr Dogfennau Cefndir**